

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adolygiad o Wasanaethau Nyrsio Ardal **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Blwyddyn archwilio: 2015

Cyhoeddwyd: Ionawr 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 741A2014

Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwgyn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol nac ar staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk <<mailto:infoofficer@wao.gov.uk>>.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Tracey Davies, Katrina Febry a Gabrielle Smith.

Cynnwys

Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir. Ceir amrywio anesboniadwy yn y defnydd, nid oes digon o gysondeb rhwng yr adnoddau a'r galw, ac mae diffyg trefniadau i fonitro ansawdd a pherfformiad mewn modd systematig ar lefel sefydliad.

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir o ran darparu mwy o ofal yn y gymuned, ond mae angen iddo ddiffinio cylch gwaith nyrsys ardal oddi mewn i'r gwasanaethau nyrsio cymunedol integredig newydd	6
Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrsio ardal, ond mae angen iddo wella'r rheolaeth ar y galw amdanynt, a chysoni adnoddau â'r angen	7
Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol	8
Ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y systemau sydd ar waith i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal	9
Argymhellion	9

Atodiadau

Dull archwilio	12
Cyflwyno'r prif ganfyddiadau	14

Adroddiad cryno

Crynodeb

1. Mae nyrsys ardal ymhlith prif ddarparwyr gofal yn y gymuned. Maent yn chwarae rhan hollbwysig yn y tîm gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, gan ymweld a darparu gofal i gleifion yn y gymuned ac yn eu cartrefi eu hunain. Un o rolau eraill nyrsys ardal yw gweithio gyda chleifion a'u perthnasau i'w helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth, gan osgoi cael eu derbyn neu ddychwelyd i'r ysbyty heb fod angen.
2. Gall llwyth achosion cleifion nyrs ardal gynnwys ystod oedran eang ynghyd ag amrywiaeth sylweddol o broblemau iechyd, gan gynnwys cleifion â salwch terfynol. Pobl oedrannus a bregus yw rhan helaeth o'r cleifion. Hyd y gellir rhagweld, mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o gynyddu gyda phoblogaeth oedrannus sy'n tyfu, arosiadau byrrach yn yr ysbyty a'r ymdrech i drin mwy o gleifion, a chanddynt anghenion gofal cymhleth, yn y gymuned yn lle'r ysbyty. Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd), disgwylir cynnydd o 50 y cant yn nifer y bobl 65 oed a hŷn erbyn 2036¹ a rhagwelir cynnydd o 133 y cant yn nifer y bobl oedrannus iawn, sy'n 85 oed a hŷn.
3. Mae model rheoli cyflyrau cronig² Llywodraeth Cymru a'i strategaeth gofal sylfaenol³ yn nodi'r angen i newid cydbwysedd gwasanaethau ar sail system gyfan ac i ddarparu mwy o ofal mewn lleoliadau cymunedol. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael tîm amlddisgyblaethol integredig sy'n canolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau cymunedol ar draws ardaloedd lleol i unigolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth.
4. Yn ein gwaith blaenorol ar gyflyrau cronig⁴ canfuwyd y canlynol:
 - mai ychydig o fyrddau iechyd sydd â dealltwriaeth dda o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan ei gwneud hi'n anodd targedu hyfforddiant a datblygiad er mwyn symud gofal tua'r gymuned;
 - bod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti sydd ei angen i 'symud' gofal i'r gymuned a chydgyssylltu gofal; ac
 - y gellid cydgysylltu gwasanaethau cymunedol ar gyfer y cleifion mwyaf bregus yn well, gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gofal, neu ofal tebyg ar gyfer y garfan hon o gleifion.

¹Llywodraeth Cymru, Local Authority Population Projections for Wales, 2011-based Variant Projections (SDR 165/2013), 2013 (Saesneg yn unig)

² Llywodraeth Cymru, Cynllun i Wella Iechyd a Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru: Model a Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu, 2007

³ Llywodraeth Cymru, Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi, 2010

⁴ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru - Diweddariad, Mawrth 2014

-
5. I fodloni'r heriau hyn, bydd angen gweithlu a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, sydd wedi'i gydgysylltu'n briodol, a'i roi ar waith mewn modd effeithiol er mwyn darparu gofal yn y gymuned. Gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrsio ardal a sut mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol
 6. Ar hyn o bryd, mae gwasanaeth nyrsio ardal y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 227 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn (CALI). Mae staff nyrsio ardal wedi'u trefnu i 50 o dimau ar draws 11 o rwydweithiau mewn tair ardal leol. Ceir tair ardal leol - Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe - gyda phob ardal leol yn cyd-ffinio â'r tri awdurdod lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe, yn y drefn honno. Ceir tri rhwydwaith yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, a phum rhwydwaith yn ardal Abertawe.
 7. Mae pob tîm yn gofalu am oddeutu 115 o gleifion. Ar y cyfan, mae'r timau'n gweithredu rhwng 8:30am a 5pm, gyda thîm nyrsio ardal y tu allan i oriau ym mhob ardal leol yn darparu gofal y tu allan i'r oriau hyn i gleifion yn y llwyth achos.
 8. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n trefnu gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio ardal, i 10 rhwydwaith newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid awdurdod lleol a phartneriaid o'r sector gwirfoddol gyda'r bwriad o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir ym mhob rhwydwaith.
 9. Cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygiad Cymru gyfan o wasanaethau nyrsio ardal yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a gasglwyd o'r byrddau iechyd. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Mawrth 2014 ac Awst 2014, gan anelu i ateb y cwestiwn canlynol: "A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?". Nodir ein dull archwilio yn [Atodiad 1](#).

Ein prif ganfyddiadau

10. Daethom i'r casgliad nad oedd rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir. Ceir amrywio anesboniadwy yn y defnydd ohono, nid oes digon o gysondeb rhwng yr adnoddau a'r galw, ac mae diffyg trefniadau i fonitro ansawdd a pherfformiad mewn modd systematig ar lefel y sefydliad.
11. Ceir crynodeb o'n prif ganfyddiadau yn y tabl isod. Nodir y dystiolaeth fanwl sy'n sail i'r canfyddiadau hyn yn [Atodiad 2](#) ar ffurf cyflwyniad tebyg i'r un a roddwyd i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr ar 30 Hydref 2014. Bydd y setiau data sy'n sail i'r canfyddiadau archwilio yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd.

Rhan 1 - Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned yn glir, ond mae angen iddo ddiffinio cylch gwaith nyrsio ardal oddi mewn i'r gwasanaethau nyrsio cymunedol integredig newydd

Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned yn glir, ac i gefnogi'r weledigaeth mae'n symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

- Mae'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn gweithio i drefnu gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio ardal, i 10 rhwydwaith gwasanaeth cymunedol integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn datgan ei ymrwymiad i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned, i helpu'r boblogaeth i ddewis ffyrdd iachach o fyw, ac i rymuso pobl i reoli cyflyrau hirdymor.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwybod ei fod yn wynebu sawl her mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio, a'r galw tebygol am wasanaethau yn y dyfodol wrth geisio ail-lunio gwasanaethau oddi mewn i'r cyfyngiadau ariannol cyfredol.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiffinio cylch gwaith nyrsys ardal o fewn y gwasanaeth nyrsio cymunedol integredig newydd.

- Nid oes cynllun gweithredol nyrsio cymunedol ar draws y bwrdd iechyd.
- Mae manyleb gwasanaeth cyfredol y Bwrdd Iechyd nyrsys ardal wedi dyddio.
- Gan weithio gyda phartneriaid yn yr awdurdod lleol, mae pob ardal yn gyfrifol am ysgogi integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Er bod egwyddorion a manteision gwaith integredig wedi'u cytuno, nid oes cynlluniau gweithredol ardal ar waith eto er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned.
- Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir o fewn y gwasanaethau cymunedol integredig sydd wedi'u cynllunio ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio newidiadau i niferoedd a sgiliau'r gweithlu.

Mae'r strwythur ardal yn creu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir, ond mae'r ardaloedd yn gweithredu mewn seilo, gan olygu bod y dull o ddarparu gwasanaeth nyrsio ardal yn amrywio.

- Mae'r llinellau atebolrwydd rheolaethol yn glir ar raddfa leol; fodd bynnag, mae pob ardal yn gweithio'n ynysig, gan olygu bod y gwasanaethau nyrsio ardal yn amrywio.
- Mae gan yr ardaloedd strwythurau monitro a llywodraethu clir, gydag arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol ar waith i gefnogi'r staff.
- Mae'r llinellau atebolrwydd yn glir ar raddfa leol ac ar raddfa'r Bwrdd Iechyd.

Rhan 2 - Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrsio ardal, ond mae angen iddo wella rheolaeth ar y galw a chysoni adnoddau â'r angen.

Mae'r Bwrdd lechyd yn deall beth yw'r galw yn ôl nifer y cleifion yn y llwyth achosion, ond ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y dull o fesur dibyniaeth.

- Mae'r Bwrdd lechyd yn deall y galw am y gwasanaeth nyrsio ardal yn ôl nifer y cleifion yn eu llwyth achosion a'u hanghenion lefel uchel.
- Nid yw'r Bwrdd lechyd yn defnyddio unrhyw offer safonedig ar gyfer dibyniaeth cleifion, ac mae anghysondeb rhwng ardaloedd yn y dull o fesur dibyniaeth.

Mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal.

- Mae meini prawf wedi'u sefydlu ar gyfer atgyfeirio i'r gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae ystod rhy eang o gleifion yn cael eu hystyried yn gymwys.
- Nid yw'r gwasanaeth nyrsio ardal yn defnyddio ffurflen atgyfeirio safonedig, ac er bod yr wybodaeth atgyfeirio yn cael ei hystyried yn ddigonol, mae gwybodaeth sylfaenol ar goll.

Nid yw'n glir a oes gan y Bwrdd lechyd y nifer a'r gymysgedd gywir o staff nyrsio ardal er mwyn bodloni'r galw.

- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig ar ei isaf yng Nghymru.
- Mae cyfran y gweithwyr cymorth iechyd gyda'r uchaf yng Nghymru, ond mae'r sefyllfa'n amrywio rhwng timau, ac nid oes sicrwydd a yw'r amrywio hwnnw yn seiliedig ar angen.
- Ystyrir gofynion gweithlu ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal ar sail ardal leol, gan adolygu'r gymysgedd o sgiliau wrth i swyddi ddod yn wag. Fodd bynnag, nid yw nifer y gweithwyr na'r gymysgedd o sgiliau wedi cael eu hadolygu ar lefel bwrdd iechyd er mwyn gweld a yw'r rhain yn bodloni'r angen cyfredol a'r angen yn y dyfodol.
- Bu gostyngiad bychan yn nifer y staff nyrsio ardal ers 2009.

Mae'r Bwrdd lechyd yn buddsoddi'n frwd mewn hyfforddiant ffurfiol i staff nyrsio ardal, ond mae'r anghysondeb o ran cydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tansellio ei allu i ganfod bylchau mewn sgiliau. Yn y cyfamser, ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â lefelau isel o gydymffurfio â pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.

- Penderfynir ar yr anghenion hyfforddi yn lleol, gan ddibynnu'n rhannol ar y broses arfarnu, ond nid yw'r holl staff wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf.
- Mae'r graddau y cydymffurfir â hyfforddiant statudol a gorfodol yn amrywio rhwng ardaloedd ac mae'r data ar gydymffurfio a gedwir ar systemau'r ardaloedd yn anghyflawn.
- Mae pwysau llwyth gwaith yn ei gwneud hi'n anodd i staff gael amser cyflogedig wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Er bod y Bwrdd lechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff nyrsio, nid oes gan yr holl dimau nyrsio ardal system ar waith ar gyfer hynny.
- O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal cofrestredig yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer; fodd bynnag, nid yw pob gweithiwr cymorth gofal iechyd yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cafodd hyfforddiant ar eu cyfer.
- Mae'r gyfran o staff nyrsio ardal a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol yn unol â chyfartaledd Cymru.

Rhan 3 - Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol

Ceir amrywio anesboniadwy yn y modd y bydd timau nyrsio ardal yn treulio'u hamser.

- Mae'r gyfran o amser sy'n cael ei dreulio yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn well na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r gyfran o amser sy'n cael ei dreulio'n rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn amrywio'n helaeth rhwng gwahanol dimau.
- Ar y cyfan, nid yw amser teithio ond yn cyfrif am gyfran fechan o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chleifion, ond mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn teithio fesul cyswllt claf hyd at dair gwaith yn fwy mewn rhai timau, o gymharu â thimau eraill.
- Mae'r gyfran o amser y bydd staff yn treulio gyda chleifion ac mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion yn amrywio oddi mewn, ac ar draws y graddfeydd, er nad oes rhesymeg glir dros yr amrywio hwn yn ôl pob golwg.

Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y llwythi achosion ac ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei adnoddau nyrsio ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwythi achosion.

- Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion fesul nyrs ardal, dair gwaith yn fwy mewn rhai timau nyrsio ardal, o gymharu â thimau nyrsio ardal eraill.
- Cynhaliodd staff nyrsio ardal fwy na 10,210 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad; fodd bynnag, roedd llawer o amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin.
- Yn ystod wythnos yr archwiliad, gweithiodd tri o bob pum aelod o staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract.

Gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o gefnogi'r rheolaeth ar y llwythi achosion lleol.

- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd.
- Gall nifer yr ymweliadau â chleifion ar unrhyw ddydd fod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau'n gofalu am gleifion sydd wedi cofrestru gyda phractis y tu allan i derfyn y Bwrdd Iechyd.
- Cynhelir archwiliadau practis blynyddol er mwyn adolygu'r llwythi achosion a'r rheolaeth ar y llwythi gwaith o fewn y gwasanaeth nyrsio ardal, ond nid yw'n glir sut y caiff canfyddiadau archwilio eu defnyddio i wella darpariaeth gwasanaeth.
- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartref eu hunain, ond nid yw pob claf yn 'gaeth i'w gartref'.

Mae timau nyrsio ardal yn cyflawni rôl rheolwr achosion, gan gydgyssylltu'r gwasanaethau gofal iechyd amrywiol y bydd cleifion yn eu derbyn.

- Mae llawer o gleifion yn derbyn amryw o wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned, ac mae'r timau nyrsio ardal yn rheoli achosion neu'n cydgysylltu'r gofal hwn ar gyfer mwyafrif y cleifion.
- Nid oes unrhyw systemau ffurfiol ar waith i rannu gwybodaeth am gleifion rhwng y gwahanol ddarparwyr gwasanaeth a'r timau, ac mae'r staff yn dibynnu ar gysylltiadau cyfathrebu da ond anffurfiol.

Rhan 4 - Ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y systemau sydd ar waith i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal

Mae gan y Bwrdd Iechyd systemau ar waith ar raddfa leol i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae lle i wella.

- Ceir anghysondeb rhwng ardaloedd o ran systemau i gipio ac adrodd ar weithgarwch, ac ychydig o eglurder a geir ynghylch sut y defnyddir yr wybodaeth yn sail wrth gynllunio neu wella gwasanaethau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd nyrsio cymunedol, a fydd yn cynnwys mesurau ansawdd a diogelwch ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliadau ymarfer blynyddol, sy'n cynnwys ymarfer arsylwi clinigol, cadw cofnodion, urddas a gofal cleifion a rheoli meddyginiaethau, ond nid yw'n glir sut y defnyddir canlyniadau'r archwiliad.
- Bydd y nyrsys arweiniol yn cynnal cyfarfodydd gwybodaeth misol ar gyfer yr holl fwrdd iechyd ar ddiogelwch, ansawdd a risg.
- Nid oes dull cyson i'r holl fwrdd iechyd gasglu adborth oddi wrth gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsio ardal. Fodd bynnag, bydd yr archwiliad 'Hanfodion Gofal' yn cael ei roi ar waith yn fuan ymhlith gwasanaethau nyrsio ardal, ac yn darparu rhywfaint o wybodaeth yn y dyfodol ynghylch profiadau cleifion.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd na'i bwyllgorau wedi trafod perfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrsio ardal ar draws Cymru ac mae dysgu ac arfer da yn cael ei rannu ar y cyfan.

- Mae uwch staff nyrsio yn cyfrannu'n frwd at fforymau Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrsio ardal.
- Ceir mecanweithiau i rannu dysgu ac arfer da o fewn ardaloedd, a thrwy fforwm y bwrdd iechyd cyfan. Fodd bynnag, ceir safbwyntiau cymysg ynglŷn â'r graddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhaedru, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer rhannu ar draws ardaloedd.

Argymhellion

Strategaeth a chynllunio

- R1 Er mwyn bodloni'r galw cynyddol am wasanaethau yn y gymuned, mae angen i'r Bwrdd Iechyd:
- egluro rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaeth nyrsio ardal oddi mewn i integreiddio ehangach y gwasanaethau nyrsio cymunedol; a
 - datblygu cynllun gweithlu, sy'n nodi'r lefel a'r gymysgedd sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn bresennol ac i'r dyfodol.

Adnoddau i fodloni'r galw

- R2 Mae'r llwyth achosion nyrsio ardal yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd, a gall nifer yr ymweliadau fod yn ddiderfyn. Gan weithio gyda'i dimau nyrsio ardal, dylai'r Bwrdd lechyd:
- gytuno ar drothwy lle gallai llwyth achosion fod ar gau i achosion newydd sy'n cael eu hatgyfeirio;
 - datblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio pan fydd y nifer yn debygol o fynd heibio'r trothwy; ac
 - ystyried a oes angen y gofal a ddarperir i gleifion a welir yn anfynych, ynteu a ellir gollwng y cleifion hyn yn ddiogel o'r llwyth achosion neu gael gweithwyr proffesiynol eraill mwy priodol i ddarparu gofal iddynt.
- R3 Er mwyn gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal, a sicrhau bod pob atgyfeiriad yn briodol, mae angen i'r Bwrdd lechyd:
- ddiweddarau manyleb y gwasanaeth nyrsio ardal, gan gynnwys y meini prawf atgyfeirio;
 - rhannu'r meini prawf atgyfeirio cyfredol ag atgyfeirwyr posibl;
 - llunio rhestr wirio glir o'r wybodaeth sydd ei hangen gan yr atgyfeirwyr; a
 - chynnal archwiliad rheolaidd o gydymffurfiaeth â'r meini prawf a rhestr wirio o wybodaeth, a thargedu'r rhai sy'n atgyfeirio'n amhriodol neu nad ydynt yn darparu gwybodaeth ddigonol.
- R4 Er mwyn manteisio ar y sgiliau sydd ar gael o fewn y gweithlu a darparu'r cyfleoedd am ddatblygiad a hyfforddiant angenrheidiol, mae angen i'r Bwrdd lechyd:
- sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol;
 - cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd hyfforddi lle ceir lefelau isel o gydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, a rhoi mecanweithiau ar waith i wella'r cydymffurfio; a
 - chytuno ar fformat cyson ar gyfer casglu data yn lleol ar gydymffurfio a'r mecanwaith i fwydo'r wybodaeth hon yn ganolog.

Defnydd effeithiol

- R5 Roedd gwahaniaethau mawr yn y modd yr oedd staff nyrsio ardal yn treulio'u diwrnod gwaith. Er mwyn cefnogi defnydd effeithiol o'i adnoddau nyrsio ardal, mae angen i'r Bwrdd lechyd:
- archwilio'r amrywio mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion ac ystyried a oes cyfleoedd i ryddhau amser i roi gofal uniongyrchol i gleifion; ac
 - archwilio gwir faint yr oriau gwaith ychwanegol.

Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

- R6 Mae'r llwyth gwaith yn amrywio rhwng timau. Dylai'r Bwrdd lechyd ddefnyddio offeryn dibyniaeth Cymru gyfan pan fydd ar gael er mwyn cynnal adolygiad gwrthrychol i ganfod a yw niferoedd a sgiliau'r gweithlu'n cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion.

Monitro a gwella gwasanaethau

- R7 Mae'r systemau ar gyfer monitro gwasanaethau nyrsio ardal yn anghyson ac nid oes dangosfwrdd perfformiad wedi'i ddatblygu eto. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- symud ymlaen yn gyflym a chwblhau'r gwaith a ddechreuwyd i ddatblygu dangosfwrdd drwy ddatblygu ystod o fesurau perfformiad, ansawdd a diogelwch gyda threfniadau rheolaidd i'w monitro, i adrodd arnynt ac i weithredu yn eu sgil. Gallai'r mesurau gynnwys cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol, profiad y claf, canlyniadau cleifion, costau'r gwasanaeth a chyfraniad nyrsio ardal er mwyn symud gofal o leoliadau aciwt i leoliadau yn y gymuned; a
 - chytuno i adrodd canlyniadau mesur perfformiad yn rheolaidd wrth y Bwrdd.

Atodiad 1

Dull archwilio

Gofynnai'r archwiliad y cwestiwn canlynol: A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned. Yn benodol, archwiliwyd:

- a oes strategaeth glir ar gyfer darparu'r gwasanaeth nyrsio ardal;
- a oes digon o adnoddau nyrsio ardal er mwyn bodloni'r galw;
- a yw adnoddau nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol; ac
- a oes trefniadau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd a pherfformiad gwasanaethau nyrsio ardal.


Cynhaliom sawl gweithgaredd archwilio rhwng mis Mawrth a mis Awst 2014 er mwyn ateb y cwestiynau hyn. Cynhaliwyd pob gweithgaredd archwilio, a ddisgrifir yn y tabl isod, mewn wythnosau dilynol er mwyn lleihau effaith y naill weithgaredd ar y llall.

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
1. Arolwg o'r timau	<p>Gofynnwyd i arweinwyr timau unigol lenwi holiadur byr am eu tîm. Yn yr arolwg, gofynnwyd am wybodaeth am niferoedd y gweithlu, y mathau o weithgareddau gofal yr oedd y staff wedi'u hyfforddi i'w darparu ac a oedd y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio, nifer y staff a chanddynt gymwysterau ymarferydd arbenigol, cyfranogiad mewn goruchwyliaeth glinigol ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant.</p> <p>Cwblhawyd a derbyniwyd 50 o arolygon, a oedd yn cynnwys y tri tîm nyrsio ardal y tu allan i oriau.</p>
2. Dyddiadur llwyth gwaith unigol	<p>Gofynnwyd i'r holl staff nyrsio, a oedd yn gweithio fel aelod o dîm nyrsio ardal ar adeg yr archwiliad, i gadw dyddiadur saith diwrnod o'u gweithgarwch rhwng 30 Mawrth a 5 Ebrill. Roedd y dyddiadur yn gofnod o'r amser yr oedd aelodau unigol o staff yn ei dreulio ar wahanol fathau o weithgarwch, a nifer a lleoliad y cysylltiadau â chleifion.</p> <p>Derbyniwyd 309 o ddyddiaduron wedi'u cwblhau ar gyfer yr wythnos gyfeiriol. Roedd yr aelodau hyn o staff yn cynnwys staff banc, myfyrwyr cyn-cofrestru a oedd ar eu trydedd flwyddyn a myfyrwyr a oedd wedi cofrestru. Drwy'r arolwg dyddiaduron, casglwyd manylion 98 y cant o'r staff a oedd ar yr amserlen waith yn ystod yr wythnos gyfeiriol.</p>
3. Arolwg rhagolygol o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth	<p>Gofynnwyd i'r timau nyrsio ardal lenwi holiadur byr am bob atgyfeiriad a dderbyniodd y tîm rhwng 31 Mawrth a 6 Ebrill 2014. Gofynnai'r arolwg am wybodaeth ynghylch nifer a natur yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaethau nyrsio ardal, gan gynnwys ansawdd yr wybodaeth atgyfeirio a phriodolrwydd tybiedig yr atgyfeiriadau a dderbyniodd y timau nyrsio ardal. Llenwodd pob tîm holiadur ar gyfer pob atgyfeiriad newydd a dderbyniwyd ac a arweiniodd at ymweliad wyneb yn wyneb neu</p>

Gweithgareddau archwilio	Pwrpas
	alwad ffôn. Cwblhawyd a derbyniwyd 665 o arolygon.
4. Arolwg o'r llwyth achosion	<p>Gofynnwyd i'r timau nyrsio ardal lenwi holiadur byr ynghylch pob claf 'gweithredol', hynny yw, unrhyw glaf a gafodd ymweliad, neu gyswllt, gan y tîm nyrsio ardal yn ystod y chwe mis blaenorol, ac yr oedd ymweliad arall wedi'i gynllunio ar ei gyfer. Gallai arweinwyr tîm gynnal yr adolygiad ar unrhyw bryd rhwng 13 Ebrill a 26 Ebrill 2014. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch cyfansoddiad y llwyth achosion, yn enwedig y ffactorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • oed a rhyw; • a ystyrir bod y claf yn gaeth i'w dŷ; • mathau o ymyriadau gofal; • amllder yr ymweliadau; • cyfnod yn y llwyth achosion; • a oes angen gofal nyrsio y tu allan i oriau; ac • a yw'r cleifion yn derbyn gofal neu gefnogaeth gan wasanaethau gofal iechyd eraill yn y gymuned, gan nyrsys arbenigol, y gwasanaethau cymdeithasol a chynhalwyr di-dâl. <p>Cwblhawyd a derbyniwyd 5,512 o arolygon.</p>
5. Arolwg o'r Bwrdd Iechyd	<p>Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd lenwi holiadur byr, a ofynnai am wybodaeth ynglŷn â model y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau nyrsio ardal, tueddiadau yn niferoedd y gweithlu a gwariant ar wasanaethau, gwybodaeth am gydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad, a hyfforddiant statudol a gorfodol ar drefniadau i reoli perfformiad, gan gynnwys agweddau ar ansawdd a diogelwch.</p>
6. Gweithdai gydag arweinwyr tîm a rheolwyr	<p>Rhannwyd canfyddiadau'r ymarferion casglu data ag arweinwyr tîm a rheolwyr o'r tair ardal leol mewn dau weithdy adborth a gynhaliwyd ym mis Awst a mis Medi 2014. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i'r arweinwyr tîm gynnig sylwadau ynghylch dilysrwydd y canfyddiadau.</p>
7. Gweithdai gyda'r uwch dîm rheoli nyrsys a'r cyfarwyddwyr gweithredol.	<p>Gwnaethom gyfarfod ag uwch reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol ar ddiwedd mis Hydref 2014 er mwyn rhannu ein casgliadau cychwynnol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad.</p>

Atodiad 2

Cyflwyno'r prif ganfyddiadau





WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2015

Adolygiad Nyrsio Ardal


Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg





WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cefndir



- Nyrsys ardal yw un o'r prif ddarparwyr gofal iechyd yng nghartrefi cleifion.
- Mae'r galw am wasanaethau nyrsio ardal yn debygol o godi.
 - Mae deuparth y boblogaeth yng Nghymru sy'n 65 oed neu'n hŷn yn adrodd bod ganddynt o leiaf un cyflwr cronig, tra bod gan draean ohonynt sawl cyflwr cronig.
 - Mae pobl yn byw'n hirach a rhagwelir y ceir cynnydd o 50% yn nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn yn Abertawe Bro Morgannwg erbyn 2036, a chynnydd o 133% yn nifer y bobl oeddrannus iawn, hy, rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn.
- Yng ngwaith blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflyrau cronig, canfuwyd yn genedlaethol:
 - Mai ychydig o fyrddau iechyd oedd â dealltwriaeth o gapasiti neu allu eu gweithlu cymunedol, gan olygu ei bod hi'n anodd targedu hyfforddiant er mwyn symud gofal tua'r gymuned;
 - Fod rhai byrddau iechyd wedi ad-drefnu gwasanaethau nyrsio ardal er mwyn darparu'r capasiti i symud a chydgysylltu gofal; ac
 - Y gellid cydgysylltu gwasanaethau'n well gan fod llawer o wasanaethau, gan gynnwys nyrsio ardal, yn darparu'r un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg i'r un garfan o gleifion.
- Er mwyn cyflenwi gofal yn nes at adref, mae angen gweithlu cymunedol a chanddo adnoddau a sgiliau priodol, sy'n cael ei roi ar waith mewn modd effeithiol.
- Gyda'r cynnydd yn y galw a'r cyfyngiadau parhaus ar arian, mae angen i fyrddau iechyd ddeall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth nyrsio ardal a sut y mae'n rhan o ddatblygiad cyffredinol gwasanaethau cymunedol.

Adolygiad Nyrsio Ardal**Slaid 2**



Cwestiwn archwilio

A yw'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ac yn defnyddio'i adnoddau nyrsio ardal yn effeithiol yn rhan o'i ddull ehangach o ddarparu gofal yn y gymuned?

- A oes strategaeth glir i'r gwasanaeth nyrsys ardal?
- A oes digon o adnoddau i fodloni'r galw?
- A yw'r staff yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol?
- A oes trefniadau effeithiol i fonitro a gwella gwasanaethau?



Casgliad cyffredinol

Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir. Ceir amrywio anesboniadwy yn y defnydd ohono, nid oes digon o gysondeb rhwng yr adnoddau a'r galw, ac mae diffyg trefniadau i fonitro ansawdd a pherfformiad mewn modd systematig ar lefel y sefydliad.

Is-gasgliadau

1. Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir o ran darparu mwy o ofal yn y gymuned, ond mae angen iddo ddiffinio cylch gwaith nyrsys ardal oddi mewn i'r gwasanaethau nyrsio cymunedol integredig newydd.
2. Mae gan y Bwrdd lechyd ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrsio ardal, ond mae angen iddo wella'r rheolaeth ar y galw amdanynt, a chysoni adnoddau â'r angen.
3. Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol.
4. Ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y systemau sydd ar waith i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 5

Strategaeth a chynllunio

Mae gan y Bwrdd lechyd weledigaeth glir o ran darparu mwy o ofal yn y gymuned, ond mae angen iddo ddiffinio cylch gwaith nyrsys ardal oddi mewn i'r gwasanaethau nyrsio cymunedol integredig newydd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 6



Strategaeth

- a. Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir o ran darparu mwy o ofal yn y gymuned, ac i gefnogi'r weledigaeth honno mae'n symud tuag at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.**
- Mae'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn gweithio i gysoni gwasanaethau nyrsio cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio ardal, i greu deg rhwydwaith integredig ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.
 - Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn datgan ei ymrwymiad i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned, i helpu'r boblogaeth i ddewis ffyrdd iachach o fyw, ac i rymuso pobl i reoli cyflyrau hirdymor.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwybod ei fod yn wynebu sawl her mewn perthynas â'r boblogaeth sy'n heneiddio, a'r galw tebygol am wasanaethau yn y dyfodol wrth geisio ail-lunio gwasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol cyfredol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 7



Cynlluniau gweithredol

- b. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiffinio cylch gwaith nyrsys ardal o fewn y gwasanaeth nyrsio cymunedol newydd integredig.**
- Nid oes cynllun gweithredol ar draws y bwrdd iechyd ar gyfer nyrsio cymunedol.
 - Mae manyleb cyfredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal wedi dyddio.
 - Gan weithio gyda phartneriaid yn yr awdurdod lleol, mae pob ardal yn gyfrifol am ysgogi integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
 - Er bod egwyddorion a manteision gwaith integredig wedi'u cytuno, nid oes cynlluniau gweithredol ardal ar waith eto er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned.
 - Nid yw rôl y gwasanaeth nyrsio ardal wedi'i diffinio'n glir o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig, ac mae hynny'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio newidiadau i niferoedd a sgiliau'r gweithlu.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 8



Llinellau atebolrwydd

- C. Mae'r strwythur ardal yn creu llinellau atebolrwydd rheolaethol a phroffesiynol clir, ond mae'r ardaloedd yn gweithredu mewn seilo, gan olygu bod y dull o ddarparu gwasanaeth nyrzio ardal yn amrywio.**
- Mae'r llinellau atebolrwydd rheolaethol yn glir ar raddfa leol; fodd bynnag, mae pob ardal yn gweithio'n ynysig, gan olygu bod y gwasanaethau nyrzio ardal yn amrywio.
 - Dywedodd staff wrthym fod pob ardal yn gweithredu mewn 'seilo'; nid yw aelodau staff yn ymwybodol o'r modd y bydd timau mewn ardaloedd eraill yn gweithio.
 - Mae gan yr ardaloedd strwythurau monitro a llywodraethu clir, gydag arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol ar waith i gefnogi'r staff.
 - Mae'r llinellau atebolrwydd yn glir ar raddfa leol ac ar raddfa'r Bwrdd Iechyd.



Adnoddau i fodloni'r galw am y gwasanaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau nyrzio ardal, ond mae angen iddo wella'r rheolaeth ar y galw amdanynt, a chysoni adnoddau â'r angen.



Deall y galw

- a. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall beth yw'r galw yn ôl nifer y cleifion yn y llwyth achosion, ond ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y dull o fesur dibyniaeth.**
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall y galw am y gwasanaeth nyrsio ardal yn ôl nifer y cleifion yn eu llwyth achosion a'u hanghenion lefel uchel.
 - Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio unrhyw offer safonedig ar gyfer dibyniaeth cleifion, ac mae anghysondeb rhwng ardaloedd yn y dull o fesur dibyniaeth.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu offeryn craffter Cymru Gyfan i fesur anghenion ansoddol a meintiol cleifion yn y llwyth achosion.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 11



Deall y galw

Canfyddiadau o'r arrolwg o lwyth achosion nyrsio ardal:

- Ar adeg ein harchwiliad, roedd y nyrsys yn gwasanaethu 5,512 o gleifion 'gweithredol'¹, wedi'u rhannu ar draws 47 o lwythi achosion.
 - Roedd 87% o'r cleifion yn 65 oed a hŷn; 37% yn 85 oed neu'n hŷn;
 - Roedd gan 10% o'r cleifion anghenion nyrsio y tu allan i oriau craidd;
 - Roedd 41% o'r cleifion yn byw ar eu pen eu hunain;
 - Roedd 70% o'r cleifion yn cael cymorth gan gynhaliwr di-dâl;
 - Ystyriwyd bod 77% o'r cleifion yn 'gaeth i'w cartrefi'²;
 - Roedd 95% o'r cleifion yn derbyn ymweliad gan un gweithiwr yn eu cartref eu hunain;
 - Roedd 16% o'r cleifion wedi bod yn y llwyth achosion am flwyddyn i ddwy flynedd, a 30% o'r cleifion wedi bod yn y llwyth achosion am fwy na dwy flynedd;
 - Roedd 8% o'r cleifion yn cael ymweliad dyddiol neu'n amlach, 38% yn cael ymweliad unwaith neu fwy yr wythnos, 9% yn cael ymweliad unwaith bob pythefnos, 42% yn cael ymweliad bob 1 i 6 mis, a 2% yn cael ymweliad blyneddol.

1 Dyma'r cleifion a oedd wedi cael ymweliad gan y tîm nyrsio ardal yn ystod y chwe mis cyn cynnal yr adolygiad, ac yr oedd ymweliad arall wedi'i drefnu ar eu cyfer. Mae'n bosibl ein bod wedi amcangyfrif cyfanswm y cleifion yn y llwyth achosion yn rhy isel, gan nad oedd rhai timau wedi cynnwys cleifion a welir unwaith y flwyddyn unig (ar gyfer asesiad).

2 Pobl y byddai eu cyflwr meddygol a'u seicolegol yn dirywio i raddau andwyol pe baent yn gadael amgylchedd eu cartref yw'r cleifion hynny a gyfrifir fel hys'n gaeth i'w cartref.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 12



Rheoli'r galw

b. Mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal.

- Mae meini prawf wedi'u sefydlu ar gyfer atgyfeirio i'r gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae ystod rhy eang o gleifion yn cael eu hystyried yn gymwys.
 - Tybiwyd bod mwyafrif helaeth yr atgyfeiriadau yn briodol (97%).
 - Dywedodd staff nyrsio ardal wrthym eu bod yn darparu gofal i gleifion na ddylai, yn eu tyb hwy, fod yn gymwys i dderbyn gofal gan nyrsys ardal, am resymau fel;
 - Bod gweithwyr gofal iechyd eraill yn atgyfeirio cleifion nad ydynt yn gaeth i'w cartrefi; a
 - Chanfyddiad o ddiffyg darparwyr gofal eraill dichonadwy.
- Nid yw'r gwasanaeth nyrsio ardal yn defnyddio ffurflen atgyfeirio safonedig, ac er bod yr wybodaeth atgyfeirio yn cael ei hystyried yn ddigonol, mae gwybodaeth sylfaenol ar goll.
 - Yn y rhwydweithiau nyrsio cymunedol integredig newydd, bydd gan bob rhwydwaith un pwynt myendiad ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n gweithredu o fewn y rhwydwaith hwnnw, a bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chipio wrth atgyfeirio er mwyn helpu i nodi anghenion cleifion.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 13



Rheoli'r galw

Canfyddiadau o'r arolwg atgyfeirio nyrsys ardal:

- Yn ystod yr wythnos a archwiliwyd, cafwyd 665 o atgyfeiriadau; cyfartaledd o 14 atgyfeiriad fesul tîm nyrsio ardal.
- Ar ddiwrnodiau gwaith y ceir y mwyaf o alw am wasanaethau nyrsio ardal.
 - Daeth bron yr holl atgyfeiriadau a gafwyd i law ar ddiwrnodiau gwaith, ar ddyddiau Llun a Iau yn bennaf. Ychydig iawn (4%) a gafwyd ar y penwythnos.
- Ysgogir llawer o'r galw am ofal nyrsio ardal pan fydd cleifion neu eu cynhalwyr yn cael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu.
 - Daeth dwy ran o bump (41%) o atgyfeiriadau o feddygfeydd teulu.
 - Daeth ychydig dros chwarter ohonynt (26%) gan gleifion neu eu perthnasau/cynhalwyr.
- Roedd chwarter (25%) yr atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sy'n hysbys i'r gwasanaeth nyrsio ardal.
 - Mae'r fanyleb data nyrsys ardal yn nodi sut y caiff atgyfeiriadau eu brysennu a'u blaenoriaethu ar sail faint o frys sydd i'r angen, ac mae canfyddiadau'r archwiliad yn dangos bod:
 - Deuparth y cleifion (66%) yn cael eu 'gweld' ar yr un diwrnod ag y derbyniwyd yr atgyfeiriad, tra bod chwarter y cleifion (24%) yn cael eu gweld y diwrnod nesaf.
 - Dywedodd y staff wrthym fod cleifion arferol yn aml yn cael eu gweld ar yr un diwrnod â'r atgyfeiriad, gan fod staff yn teimlo ei bod hi'n bwysig asesu'r claf er mwyn asesu faint o frys sydd i'r angen.
- Derbyniodd ychydig dros hanner (54%) y cleifion a atgyfeiriwyd ofal parhaus ar ôl yr ymweliad cyntaf; arweiniodd traean (33%) o'r atgyfeiriadau at ymweliadau untro; mewn 13% o achosion nid oedd penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r angen am ofal parhaus.


Sleid 14



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rheoli'r galw

Roedd bron i draean yr atgyfeiriadau (32%) ar gyfer rheoli clwyfau, a 30% arall yn geisiadau i dynnu gwaed.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 15



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rheoli'r galw

Mae'r staff nyrsio o'r farn fod gwybodaeth atgyfeirio'n ddigonol ar y cyfan, ond bod peth gwybodaeth sylfaenol ar goll.

Cyfran yr atgyfeiriadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

brys yr atgyfeiriad?	73%
hanes meddygol neu ddiagnosis?	62%
a yw'r claf yn byw ei ben ei hun?	34%
sut y byddech yn cael mynediad i gartref y claf?	34%
a fyddai angen cyfarpar neu orchuddion?	33%
a oes gan y claf gynhaliwr?	30%
a oes gweithwyr iechyd eraill yn ymwneud â gofal y claf?	23%
a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â gofal y claf?	17%
a yw gwasanaethau gwirfoddol yn ymwneud â gofal y claf?	11%

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 16



Adnoddau sydd ar gael

C. Nid yw'n glir a oes gan y Bwrdd Iechyd y nifer a'r gymysgedd gywir o staff nyrsio ardal er mwyn bodloni'r galw.


- Mae nifer y staff nyrsio ardal sydd ar gael ar gyfer y boblogaeth o gleifion cofrestredig ar ei isaf yng Nghymru.
 - Ceir 2.1 o aelodau staff nyrsio ardal cyfwerth ag amser llawn (CALI) fesul 1,000 o gleifion cofrestredig sy'n 65 neu'n hŷn yn Abertawe Bro Morgannwg, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 2.8 o aelodau staff CALI.
- Mae cyfran y gweithwyr cymorth iechyd gyda'r uchaf yng Nghymru, ond mae'r sefyllfa'n amrywio rhwng timau, ac nid oes sicrwydd a yw'r amrywio hwnnw yn seiliedig ar angen.
- Ystyrir gofynion gweithlu ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal ar sail ardal leol, gan adolygu'r gymysgedd o sgiliau wrth i swyddi ddod yn wag. Fodd bynnag, nid yw nifer y gweithwyr na'r gymysgedd o sgiliau wedi cael eu hadolygu ar lefel bwrdd iechyd er mwyn gweld a yw'r rhain yn bodloni'r angen presennol a'r angen yn y dyfodol, yn enwedig wrth symud tuag at wasanaethau nyrsio cymunedol integredig.
 - Mynegodd rhai arweinwyr tîm bryderon ynglŷn â'r ffaith ei bod hi'n gallu cymryd rhwng tri a chwe mis i gwblhau'r broses recriwtio ar ôl i swyddi ddod yn wag, o hysbysu am y swydd wag hyd at yr adeg pan fydd y cyflogai yn dechrau gweithio.
- Bu gostyngiad bychan yn nifer y staff nyrsio ardal ers 2009.
 - Mae nifer y nyrsys ardal band 6 a 7 wedi gostwng yng Nghastell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, mae nifer a chymysgedd y staff nyrsio ardal ym Mhen-y-bont ar Ogorw wedi parhau ar lefel debyg ers 2009
 - Mae'r data hanesyddol am y gweithlu a ddarparwyd ar gyfer ardal Abertawe yn anghyflawn. O ganlyniad i hynny, nid oes modd dadansoddi'r tueddiadau yn niferoedd a graddfeydd y staff ar draws y Bwrdd Iechyd ac o fewn Abertawe.

Sleid 17



Adnoddau sydd ar gael

Yn Abertawe Bro Morgannwg ym 2014 mae'r nifer isaf yng Nghymru o staff nyrsio ardal ar gael ar gyfer cleifion 65 oed a hŷn sydd wedi'u cofrestru â meddygfeydd teulu.



Sylwch fod y modelau gwasanaeth a weithredir gan y Bwrddau Iechyd yn amrywio.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 18



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adnoddau sydd ar gael

Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer y staff ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond roedd gostyngiad yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Band Cyflog	Pen-y-bont ar Ogwr Castell-nedd Port Talbot				Abertawe ¹	
	2009	2013	2009	2013	2012	2013
Band 8 arbenigwr neu ymarferydd nyrso	0.0	0.0	1.0	1.0	0.0	0.0
Band 7 - Nyrs Ardal	14.0	11.0	17.6	10.8	31.0	32.3
Band 6 - Nyrs Ardal	14.0	14.5	10.6	10.5	2.0	3.5
Band 5 - Staff nyrso cymunedol	49.0	52.0	37.1	38.4	46.3	46.9
Band 3 - Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd	15.0	15.0	10.9	13.5	14.1	14.1
Band 2 - Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd	3.0	3.0	4.3	3.6	0.0	0.0
Cyfansymiau	95.0	95.5	81.5	77.9	93.4	96.8

¹ Nid oedd data ar gael ar gyfer Abertawe yn 2009-11

Adolygiad Nyrsio Ardal


Sleid 19



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adnoddau sydd ar gael

Mae cyfran y gweithwyr cymorth gofal iechyd yng ngwasanaeth nyrso ardal Abertawe Bro Morgannwg yn cymharu'n ffatriol â byrddau iechyd eraill.



* Team leaders told us these staff were members of their teams.

Adolygiad Nyrsio Ardal


Sleid 20



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adnoddau sydd ar gael

Gweithwyr Cymorth y Bwrdd Iechyd sydd i gyfrif am 20% o'r gweithlu nyrsio ardal, ond mae'r gyfran o weithwyr cymorth gofal iechyd yn amrywio rhwng timau.



Adolygiad Nyrsio Ardal


Sleid 21



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adnoddau sydd ar gael

O gymharu ar raddfa rhwydwaith neu ardal, ceir llai o amrywio.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 22



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu'r gwasanaeth

d. Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi'n frwd mewn hyfforddiant ffurfiol i staff nyrsio ardal, ond mae'r anghysondeb o ran cydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tansellio ei allu i ganfod bylchau mewn sgiliau. Yn y cyfamser, ceir risgiau corfforaethol a gweithredol yn gysylltiedig â lefelau isel o gydymffurfio â pheth hyfforddiant statudol a gorfodol.

- Penderfynir ar yr anghenion hyfforddi yn lleol, gan ddiwynnu'n rhannol ar y broses arfarnu, ond nid yw'r holl staff wedi derbyn arfarniad ac adolygiad o'u cynllun datblygu personol o fewn y 12 mis diwethaf.
 - Mae 63% o staff nyrsio ardal wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad (56% ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 81% yng Nghastell-nedd port Talbot a 52% yn Abertawe).
 - Mae cynllun datblygu personol 63% o staff wedi cael ei adolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae'r graddau y cydymffurfir â hyfforddiant statudol a gorfodol yn amrywio rhwng ardaloedd ac mae'r data ar gydymffurfio a gedwir ar systemau'r ardaloedd yn anghyflawn.
 - Dywedodd arweinwyr tîm wrthym ei bod hi weithiau'n her rhyddhau staff i fynd ar gyrsiau hyfforddiant statudol a gorfodol.
 - Nododd arweinwyr tîm nad oedd gan yr holl dimau fynediad at gyfleusterau i roi hyfforddiant ar godi a chario.
 - Mae staff wedi nodi nad oes digon o staff er mwyn caniatáu i staff hyfforddi fel hyfforddwyr.
- Mae pwysau llwyth gwaith yn ei gwneud hi'n anodd i staff gael amser cyflogedig wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
 - Dywedodd 20 o dimau nad oeddent fyth yn gallu manteisio ar amser cyflogedig wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 23



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu'r gwasanaeth

d. Parhad...

- Er bod y Bwrdd Iechyd yn annog goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff nyrsio, nid oes gan yr holl dimau nyrsio ardal system ar waith ar gyfer hynny.
 - mae gan chwech o'r 50 o dimau nyrsio ardal system ar gyfer goruchwyliaeth glinigol.
- O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, mae staff nyrsio ardal cofrestredig yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cawsant eu hyfforddi ar eu cyfer; fodd bynnag, nid yw pob gweithiwr cymorth gofal iechyd yn gwneud defnydd o'r sgiliau y cafodd hyfforddiant ar eu cyfer.
- Mae'r gyfran o staff nyrsio ardal a chanddynt gymhwyster ymarferydd arbenigol yn unol â chyfartaledd Cymru.
 - Mae gan ychydig dros chwarter y staff nyrsio ardal cofrestredig (26%) yn Abertawe Bro Morgannwg gymhwyster ymarferydd arbenigol. Cyfartaledd Cymru yw 27%.
 - Roedd y data a ddarparwyd yn awgrymu nad oedd gan rai timau yn y Bwrdd Iechyd unrhyw aelod tîm a chanddo gymhwyster ymarferydd arbenigol.
 - Dywedodd rhai staff nyrsio ardal fod y timau'n ei chael hi'n anodd rhyddhau aelodau tîm i dderbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster ymarferydd arbenigol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 24

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu'r gwasanaeth


Hyfforddiant statudol a gorfodol	Cyfran y staff nyrsio ardal sy'n cydymffurfio â hyfforddiant		
	Pen-y-bont ar Ogwr	CNPT	Abertawe
Dadebru	59%	95%	91%
Diogelwch Tân	59%	90%	88%
Trais ac Ymddygiad Ymosodol	46%	95%	94%
Diogelu Plant	59%	77%	84%
Atal a Rheoli Heintiau	51%	95%	64%
Diogelu Oedolion	57%	52%	82%
Symud a Thrin	11%	50%	95%
Iechyd, Diogelwcha Lles	Anhysbys	95%	Anhysbys
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	Anhysbys	70%	Anhysbys
Rheoli Gwybodaeth	Anhysbys	11%	77%

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 25

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu'r gwasanaeth

Ar gyfer rhai sgiliau, fel defnyddio canwlâu mewnwythiennol, mae cyfran y staff nyrsio ardal cofrestredig sydd wedi'u hyfforddi yn gymharol fach, ond ar y cyfan mae'r staff yn defnyddio'r sgiliau y cawsant hyfforddiant ar eu cyfer.




Yn ddefnyddol, byddai'r bar glas ar 100% pe bai'r staff yn gwneud defnydd o'r sgiliau y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 26

Rhoi'r sgiliau i staff ddarparu'r gwasanaeth

Ar y cyfan, nid yw gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gwneud defnydd o'r sgiliau y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer, yn enwedig yn achos rheoli PEG.



Yn ddefnyddol, byddai'r bar glas ar 100% pe bai'r staff yn gwneud defnydd o'r sgiliau y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 27

Defnydd effeithiol

Mae'r amrywio anesboniadwy yn y defnydd o adnoddau a'u dosbarthiad yn golygu na all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod ei staff nyrsio ardal yn cael eu rhoi ar waith mewn modd effeithiol.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 28



Defnydd effeithiol

a. Ceir amrywio anesboniadwy yn y modd y bydd timau nyrsio ardal yn treulio'u hamser.


- Mae'r gyfran o amser sy'n cael ei dreulio yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn well na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r gyfran o amser sy'n cael ei dreulio'n rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn amrywio'n helaeth rhwng gwahanol dimau.
- Ar y cyfan, nid yw amser teithio ond yn cyfrif am gyfran fechan o'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chleifion, ond mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn teithio fesul cyswllt claf yn amrywio hyd at dair gwaith rhwng gwahanol dimau.
- Mae'r gyfran o amser y bydd staff yn treulio gyda chleifion ac mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â chleifion yn amrywio oddi mewn, ac ar draws y graddfeydd, er nad oes rhesymeg glir dros yr amrywio hwn yn ôl pob golwg.
 - Yn Abertawe, mae'r gyfran o amser a dreulir gan aelodau uwch o staff yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion yn uwch nag mewn ardaloedd eraill.
 - Nid oes gan yr un o'r timau gefnogaeth glercol ac mae'n bosibl mai dyma'r rheswm pam bod rhai aelodau o staff Band 3 yn treulio cyfran uchel o'u hamser ar waith 'gweinyddol'.

Sleid 29



Defnydd effeithiol

Mae gofal cleifion uniongyrchol yn cyfrif am 47% o amser staff o gymharu â 44% ar gyfer Cymru.



Gofal cleifion uniongyrchol yw cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf; Mae a wnelo gofal cleifion uniongyrchol â nodiadau cleifion, cysylltiadau ag asiantaethau eraill, teithio er mwyn ymweld â'r claf; Gofal nad yw'n ymwneud â chleifion yw pob math arall o weithgarwch ee, rheoli tîm, dysgu ac addysgu.

Adolygiad Nyrsio Ardal


Sleid 30



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Ychydig o amrywio a geir rhwng yr amsera dreulir ar ofal ar raddfa'r ardal a graddfa'r rhwydwaith.



Adolygiad Nyrso Ardal


Sleid 31



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Ar draws y Bwrdd Iechyd, bydd staff yn treulio 47% o'u hamser yn rhoi gofal uniongyrchol i gleifion, ond mae hyn yn amrywio rhwng 30% a 66% ar draws y timau.



Adolygiad Nyrso Ardal


Sleid 32



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Mae'r gyfran o amser a dreulir gyda chleifion ac ar weithgarwch nad yw'n ymwneud â chleifion yn amrywio ar draws graddfeydd, ac ardaloedd.



Adolygiad Nyrso Ardal


Sleid 33



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Mae'r amser teithio cyfartalog fesul claf yn amrywio rhwng y gwahanol rwydweithiau.



Adolygiad Nyrso Ardal


Sleid 34



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Defnydd effeithiol

Fodd bynnag, mae'r amser teithio cyfartalog fesul cysylltiad â chlaf yn amrywio'n sylweddol rhwng y timau, gydag amser teithio cyfartalog y timau y tu allan i oriau bedair gwaith yn fwy ar gyfer pob ymweliad â chlaf.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 35



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cysoni adnoddau â'r llwyth achosion

b. Mae'r staff wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y llwythi achosion ac ni all y Bwrdd lechyd fod yn sicr bod ei adnoddau nyrsio ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwythi achosion.


- Mae llwythi gwaith, fel y cawsant eu mesur yn ôl nifer y cleifion fesul nyrs ardal, dair gwaith yn fwy mewn rhai timau nyrsio ardal o gymharu â thimau eraill.
- Cynhaliodd staff nyrsio ardal fwy na 10,210 o ymweliadau neu gysylltiadau â chleifion yn ystod wythnos yr archwiliad; fodd bynnag, roedd llawer o amrywio anesboniadwy rhwng y timau o ran nifer y cleifion yr ymwelwyd â hwy a'r amser a gymerwyd i'w trin.
 - Ar gyfartaledd, cynhaliodd y timau 46.7 o gysylltiadau am bob aelod o staff CALL, ond roedd hyn yn amrywio rhwng 25.4 a 76.6 o gysylltiadau. Hyd cyfartalog pob cysylltiad oedd 22.5 munud fesul tîm, gan amrywio rhwng 15.7 a 32.8 munud fesul tîm.
 - Gallai'r amrywiadau hyn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nifynniaeth cleifion, y pellter a deithiwyd a lleoliad y gofal (ee, mwy o gleifion yn cael eu gweld mewn clinigau o bosib).
- Yn ystod wythnos yr archwiliad, gweithiodd tri o bob pum aelod o staff nyrsio ardal fwy na'u horiau gwaith contract.
 - Yn ystod yr archwiliad, roedd yr amser a weithiodd y staff, ac eithrio myfyrwyr cyn ac ôl-gofrestru a staff banc, yn ychwanegol at eu horiau contract yn amrywio rhwng rhai munudau a hyd at 32 awr. O ran aelodau unigol o staff, roedd hyn yn amrywio rhwng ychydig funudau ac uchafswm o 22 awr ar gyfer staff amser llawn a 33 awr ar gyfer staff rhan-amser.
 - Canolrif yr oriau ychwanegol a weithiwyd oedd 4.0 awr, sydd gyfwerth ag 16.5 aelod ychwanegol o staff CALL. Ymhlith staff rhan amser, 4.5 oedd canolrif yr oriau ychwanegol; ymhlith staff llawn amser, 3.7 oedd canolrif yr oriau ychwanegol.
 - Dywedodd staff wrthym nad oedd hi'n anghyffredin i rai aelodau uwch o staff weithio mwy na'u horiau contract gan weithio drwy eu hegwyll cinio, a gwneud oriau ychwanegol ar ddiwedd eu shift.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cysoni adnoddau ag angen

Mae'r llwythi gwaith, o'u mesur yn ôl nifer y cleifion am bob aelod o staff CALI, dair neu bedair gwaith yn fwy wrth gymharu gwahanol dimau nyrsio ardal, a allai adlewyrchu amrywiadau yng nghymhlethdod y llwythi achosion.



Adolygiad Nyrsio Ardal


Sleid 37



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cysoni adnoddau ag angen

Ceir llai o amrywio yn y llwythi gwaith ar raddfa rhydwaiith ac ar raddfa ardal nag ar raddfa'r timau, wrth fesur yn ôl nifer y cleifion am bob aelod o staff CALI.



Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 38



Rheoli'r llwyth achosion yn lleol

C. Gallai'r Bwrdd lechyd wneud mwy i gefnogi'r rheolaeth ar y llwyth achosion lleol.

- Anaml iawn y bydd llwythi achosion yn cau. Yn hytrach, byddant yn ymestyn i gynnwys cleifion newydd.
- Gall nifer yr ymweliadau â chleifion ar unrhyw ddydd fod yn ddiderfyn.
- Mae rhai timau'n gofalu am gleifion sydd wedi cofrestru gyda phractis y tu hwnt i derfyn y Bwrdd lechyd.
- Cynhelir archwiliadau practis blynyddol er mwyn adolygu'r llwyth achosion a'r rheolaeth ar y llwyth gwaith o fewn y gwasanaeth nyrsio ardal, ond nid yw'n glir sut y caiff canfyddiadau'r archwiliad eu denfyddio i wella darpariaeth gwasanaeth.
 - Er bod cyfran sylweddol o gleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r baich achosion yn ystod unrhyw flwyddyn, roedd bron i hanner (46%) y cleifion wedi bod yn y llwyth achosion ers mwy na blwyddyn.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 39



Rheoli'r llwyth achosion yn lleol

C. Parhad...

- Gofelir am y rhan fwyaf o gleifion yn eu cartref eu hunain, ond nid yw pob claf yn 'gaeth i'w gartref'.
 - Digwyddodd mwy na phedair rhan o bump (88%) o'r cysylltiadau â chleifion yng nghartref y claf, tra cysylltwyd â 7% ohonynt dros y ffôn; ychydig o gysylltiadau (2%) a ddigwyddodd yn y clinigau.
 - Roedd un o bob pedwar tîm yn darparu clinigau i gleifion.
 - Roedd cyfran fawr (78%) o'r cleifion wedi'u nodi'n gleifion a oedd yn gaeth i'w cartref, ond mae cyfran y cleifion sy'n gaeth i'w cartref yn amrywio rhwng 20% i 98% rhwng y gwahanol dimau.
 - Dywedodd staff wrthym nad oedd cleifion gartref weithiau pan fyddent yn ymweld. Roedd y siwrneiau seithug hyn i gyfrif am 1% o amser y staff yn ystod yr archwiliad, ond mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a fyddai lleoliadau gofal eraill yn fwy priodol.
 - Yn seiliedig ar hyd cyfartalog yr ymweliadau â chleifion, gallai staff nyrsio ardal fod wedi gwneud defnydd gwell o'r amser hwn i gynnal 218 o ymweliadau â chleifion.
- Dim ond un ymyriad gofaly bydd bron i ddwy ran o bump (38%) o gleifion ar y llwyth achosion yn ei dderbyn, a hynny fel arfer er mwyn tynnu gwaed.
 - Bydd traean o gleifion (33%) yn derbyn dau ymyriad gofal. Mae hyn fel arfer er mwyn tynnu gwaed a thrin briwiau gorwedd.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Sleid 40



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rheoli'r llwyth achosion yn lleol

Un pecyn/ymyriad gofal y mae bron i ddwy ran o bump (38%) o gleifion yn ei dderbyn, a hynny ar gyfer tynnu gwaed yn bennaf.

Ymyriadau gofal nodweddiadol ar gyfer cleifion sy'n derbyn un 'pecyn gofal'	Pen-y-bont ar Ogwr	Castell-nedd Port Talbot	Abertawe	Abertawe Bro Morgannwg
Tynnu gwaed	39%	23%	35%	33%
Gofal ar gyfer diffyg rheolaeth ar y bledren	22%	23%	13%	18%
Rheoli clwyfau	10%	15%	22%	17%
Rhoi meddyginiaethau (ac eithrio drwy ddulliau mewnwythiennol a thrwy'r geg)	14%	20%	12%	15%
Atal a thrin briwiau gorwedd	6%	4%	4%	5%
Atal a thrin wserau coes	2%	6%	5%	4%
Arall ee, gofal lliniarol, salwch cronig	7%	9%	8%	8%

Mae 52.5% o'r holl gleifion gweithredol yn cael tynnu eu gwaed (waeth faint o becynnau gofal y maent yn eu derbyn gan y gwasanaeth nyrso ardal).

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 41



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cydgysylltu gofal

d. Mae timau nyrso ardal yn cyflawni rôl rheolwr achosion, gan gydgysylltu'r gwasanaethau gofal iechyd amrywiol y bydd cleifion yn eu derbyn.

- Mae llawer o gleifion yn derbyn amryw o wasanaethau gofal iechyd yn y gymuned, ac mae'r timau nyrso ardal yn rheoli achosion neu'n cydgysylltu'r gofal hwn ar gyfer mwyafrif y cleifion.
 - Roedd bron i hanner (47%) y cleifion yn y llwyth achosion nyrso ardal hefyd yn derbyn gofal neu gyngor gan wasanaethau gofal iechyd cymunedol eraill, gan nyrsoys arbenigol neu gan weithwyr gofal iechyd eraill. Y gwasanaethau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd: ymataliaeth, podiatreg, gwasanaethau dietegol, therapi galwedigaethol, gwasanaethau hyfywedd meinwe a nyrsoys diabetes arbenigol.
 - Mae dwy ran o bump (38%) o'r cleifion yn derbyn gofal sydd wedi'i drefnu gan y gwasanaethau cymdeithasol.
 - Bydd timau nyrso ardal yn cydgysylltu neu'n rheoli achos ar gyfer y gofal hwn i 86% o'r cleifion sy'n derbyn sawl gwasanaeth (mae hyn yn amrywio rhwng 59% ac 86% ar draws Cymru) Lle nad yw'r timau'n cydgysylltu'r gofal hwn, cyfeirir at feddygon teulu a nyrsoys arbenigol fel cydgysylltwyr gofal.
- Nid oes unrhyw systemau ffurfiol ar waith i rannu gwybodaeth am gleifion rhwng y gwahanol ddarparwyr gwasanaeth a'r timau, ac mae'r staff yn dibynnu ar gysylltiadau cyfathrebu da ond anffurfiol.

Adolygiad Nyrso Ardal

Sleid 42

Trefniadau i fonitro a gwella gwasanaethau

Ceir anghysondeb rhwng y gwahanol ardaloedd yn y systemau sydd ar waith i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Steid 43

Monitro ac adrodd ar berfformiad

a. Mae gan y Bwrdd lechyd systemau ar waith ar raddfa leol i fonitro ac adrodd ar berfformiad y gwasanaeth nyrsio ardal, ond mae lle i wella.

- Ni cheir cysondeb rhwng gwahanol ardaloedd yn y systemau ar gyfer casglu ac adrodd ar weithgareddau, ac nid yw'n glir sut y caiff yr wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n sail ar gyfer cynllunio neu welliannau.
 - Mae'r data a gedwir yn ganolog ar gydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn anghyflawn.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu dangosfwrdd nyrsio cymunedol, a fydd yn cynnwys mesurau ansawdd a diogelwch ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ardal.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal archwiliadau ymarfer blynyddol, sy'n cynnwys ymarfer arsylwi clinigol, cadw cofnodion, urddas a gofal cleifion a rheoli meddyginiaethau, ond nid yw'n glir sut y defnyddir canlyniadau'r archwiliad.
 - Ym mhob un o'r tair ardal, bydd nyrsys sy'n Arweinwyr Gweithredol yn 'mynd yn ôl i'r llawr' unwaith y mis. Mae hyn yn gyfle i aelodau uwch o staff fonitro diogelwch ac ansawdd.
- Bydd y nyrsys arweiniol yn cynnal cyfarfodydd gwybodaeth misol ar gyfer yr holl fwrdd lechyd ar ddiogelwch, ansawdd a risg.

Adolygiad Nyrsio Ardal

Steid 44



Monitro ac adrodd ar berfformiad

d. Parhad ...

- Nid oes dull cyson drwy'r holl fwrdd iechyd er mwyn casglu adborth gan gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau nyrzio ardal.
 - Bydd yr archwiliad 'Hanfodion Gofal' fydd yn cael ei roi ar waith yn fuan ymhlith gwasanaethau nyrzio ardal, yn darparu peth gwybodaeth am brofiadau cleifion yn y dyfodol.
- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd na'i bwyllgorau wedi trafod perfformiad y gwasanaeth nyrzio ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Nodi a rhannu arfer da

b. Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrzio ardal ar draws Cymru ac mae dysgu ac arfer da yn cael ei rannu ar y cyfan.

- Mae uwch staff nyrzio yn cyfrannu'n weithredol at fforymau Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth nyrzio ardal.
- Ceir mecanweithiau i rannu dysgu ac arfer da o fewn ardaloedd, a thrwy fforwm y bwrdd iechyd cyfan. Fodd bynnag, ceir safbwyntiau cymysg ynghylch i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoadru, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer rhannu ar draws ardaloedd.
 - Ni cheir llawer o gyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng ardaloedd. Bydd arweinwyr tîm yn cynnal cyfarfodydd misol o fewn yr ardaloedd, ond roedd cyfarfodydd yn arfer cael eu cynnal ar raddfa'r bwrdd iechyd cyfan.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk